

### Arolwg Athrawon Cyflenwi 2018 NASUWT

Arolwg 2018 yw eich ffordd chi o ddweud wrth NASUWT am y profiad o fod yn athro cyflenwi/athrawes gyflenwi, yn ogystal â rhoi gwybodaeth i'r yr Undeb wrth iddo ymgyrchu am well telerau ac amodau gwaith.

Mae'r arolwg i'w gael yn yr adran Athrawon Cyflenwi ar ein gwefan ar:  
[www.nasuwat.org.uk/advice/supply-teacher.html](http://www.nasuwat.org.uk/advice/supply-teacher.html).

### Cynhadledd Athrawon Cyflenwi

Byddwn yn cynnal y Gynhadledd Athrawon Cyflenwi nesaf ar 8 Medi 2018 yng Ngwesty'r Hilton Metropole yn Birmingham.

Bydd y Gynhadledd yn darparu nifer o weithdai datblygiad proffesiynol parhaus, yn ogystal â chyfle i rwydweithio gydag athrawon cyflenwi eraill.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â'r Tîm Cynadleddau a Digwyddiadau ar:  
[conferencesandevents@mail.nasuwat.org.uk](mailto:conferencesandevents@mail.nasuwat.org.uk).

### Tâl Gwyliau

Mae nifer o athrawon cyflenwi wedi cysylltu â NASUWT mewn perthynas â phroblemau gyda thâl gwyliau.

Mae gan athrawon cyflenwi sy'n gweithio i asiantaethau yr hawl gyfreithiol i gael 5.6 wythnos neu 28 diwrnod o wyliau gyda chyflog y flwyddyn. Os ydych yn gweithio oriau dros dro neu annodweddiadol, yna cyfrifir eich hawl am wyliau ar sail pro rata, yn gymesur â'r oriau yr ydych yn eu gweithio.

Dylai hyn fod yn rhan o'r telerau a'r amodau gwaith y cytunir arnynt pan fyddwch yn cofrestru gydag asiantaeth. Mae'r Rheoliadau Ymddygiad Asiantaethau Cyflogaeth a Busnesau Cyflogaeth yn nodi'n glir y dylid esbonio'r telerau a'r amodau gwaith o flaen llaw a chytuno arnynt mewn ysgrifenedig gyda'r athrawon cyflenwi. Ni ellir amrywio'r rhain heblaw bod y ddwy ochr yn cytuno i hynny. Pan fydd y ddwy ochr yn cytuno i newidiadau, rhaid cyfathrebu'r rhain mewn ysgrifenedig o fewn pum diwrnod gwaith (Rheoliad 14).

Mae'n rhaid i'r telerau cyflogaeth ysgrifenedig nodi faint o dâl gwyliau y byddwch yn ei dderbyn, gan gynnwys unrhyw dâl gwyliau sydd wedi'i gynnwys yn y gyfradd bob awr (Rheoliad 15).

### Strategaeth Cyfarwyddwr Gorfodi'r Farchnad Lafur ar gyfer 2018/19

Mae Cyfarwyddwr Gorfodi'r Farchnad Lafur yn gwneud nifer o argymhellion yn ei Strategaeth ar gyfer 2018/19 sy'n effeithio ar athrawon cyflenwi fel gweithwyr asiantaeth, gan gynnwys y canlynol:

- dylid gorfodi'r rheoliadau ynghylch tâl gwyliau yn gywir drwy CthEM, gan gynnwys mecanweithiau i ganiatáu iddynt dalu unrhyw ôl-ddyledion;
- dylid ymestyn cylch gwaith yr Arolygiaeth Safonau Asiantaethau Cyflogaeth i gynnwys asiantaethau cyswllt a chwmnïau ymbarél;
- dylid diddymu 'Rhanddirymiad Sweden' neu 'dâl rhwng penodiadau' neu dylent gael eu gorfodi'n gywir;
- dylai'r Arolygiaeth Safonau Asiantaethau Cyflogaeth gael mwy o adnoddau i'w galluogi i hybu cydymffurfiaid ac i orfodi cosbau ar asiantaethau recriwtio diegwyddor;
- dylid cael cosbau ariannol mwy i annog pobl i gydymffurfio;
- dylid gwneud mwy o gydweithio a rhannu gwybodaeth gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys undebau llafur;
- dylid cydymffurfio drwy'r gadwyn gyflenwi i gyd gan gynnwys ysgolion, awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau o wahanol academiâu ac ysgolion rhydd fel defnyddwyr terfynol;

*Parhad drosodd*

- dylid newid polisiau caffael cyhoeddus i adlewyrchu'r ffaith fod angen cydymffurfio â rheoliadau'r farchnad lafur;
- mae gan bob gweithiwr yr hawl i dderbyn slipiau cyflog sy'n nodi cyfanswm yr oriau a weithiwyd a'r cyfraddau tâl fesul awr;
- dylai'r Arolygiaeth Safonau Asiantaethau Cyflogaeth ac asiantaethau eraill wella eu gwefannau mewn perthynas â chwynion a sut i'w cyfeirio nhw;
- dylai'r Arolygiaeth Safonau Asiantaethau Cyflogaeth allu gorfodi cosbau sifil ar asiantaethau nad ydynt yn cydymffurfio;
- mae symudiad at ddulliau gorfodi mwy rhagweithiol (gan gynnwys y rheiny sydd wedi'u seilio ar wybodaeth gan randdeiliaid allweddol, megis undebau llafur).

Mae Strategaeth Gorfodi'r Farchnad Lafur ar gyfer 2018/19 ar gael ar:

<https://www.gov.uk/government/publications/labour-market-enforcement-strategy-2018-to-2019>.

Mae nifer o'r argymhellion a wnaed yn Strategaeth Gorfodi'r Farchnad Lafur ar gyfer 2018/19 yn cefnogi'r dadleuon a roddwyd gan NASUWT ar ran athrawon cyflenwi yn ein cyflwyniad. Gallwch weld ein cyflwyniad ar: [www.nasuwt.org.uk/labourmarketenforcement](http://www.nasuwt.org.uk/labourmarketenforcement).

## Ymateb y Llywodraeth i Adolygiad Taylor o Arferion Gweithio Modern

Ym mis Chwefror, cyhoeddodd Llywodraeth y DU 'Good Work: A response to the Taylor Review of Modern Working Practices' sy'n cynnwys pedwar ymgynghoriad pellach ar:

- orfodi argymhellion yn ymwneud â hawliau cyflogaeth;
- argymhellion yn ymwneud â gweithwyr asiantaeth;
- ddulliau o gynyddu eglurder ym marchnad lafur y DU; ac ar
- y statws cyflogaeth.

Roedd y cyflwyniadau gan NASUWT yn ailadrodd y pryderon dirifol sydd gan yr Undeb am y dulliau o gaffael gweithwyr asiantaeth a gweithwyr hunangyflogedig yn y sector addysg, sydd wedi dwysáu gyda'r cynnydd yn y cyflogi ar sail 'ysbeidiol' sy'n digwydd yn y gweithlu. Mae'r asiantaethau a'r cwmnïau ymbarél yn parhau i wneud elw arwyddocaol gan wthio cyflogau athrawon i lawr ar yr un pryd.

Mewn perthynas â rhai o'r argymhellion penodol, nododd yr Undeb y canlynol:

- byddai gwella eglurder drwy ddarparu papur a/neu ddatganiad ysgrifenedig sy'n cynnwys y ffeithiau allweddol yn un dull o ymdrin â'r ffordd y mae athrawon cyflenwi'n cael eu trin, er nad yw hyn i gymryd lle deddfwriaeth a dulliau gorfodi statudol, sy'n cynnwys dirwyon a chosbau sylweddol i gyflogwyr a digollediad priodol i weithwyr;
- dylid ymestyn cylch gwaith yr Arolygiaeth Safonau Asiantaethau Cyflogaeth i gynnwys gorfodi'r Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth;
- dylid ymestyn yr hawl i bob gweithiwr sy'n cymryd gwyliau blynyddol dderbyn cyflog llawn i gynnwys athrawon cyflenwi sy'n gweithio i asiantaethau;
- nid yw ymestyn yr hawl i ofyn am contract mwy parhaol yn hawl o gwbl. Yn lle hynny, dylai'r Llywodraeth ddeddfu yn erbyn contractau amhriodol sy'n atal gweithwyr rhag cael swyddi parhaol;
- dylid newid y rheolau'n ymwneud â gwasanaeth parhaus, sy'n atal y mwyafrif mawr o athrawon cyflenwi sy'n gweithio i asiantaethau rhag cael hawliau cyflogaeth; a
- dylai pawb gael yr un hawliau ac iawnderau ag sydd gan weithwyr cyflogedig ar hyn a bryd a hynny drwy gael un categori o statws y gweithiwr.

## Siaradwch â ni

Hoffai NASUWT glywed gennych. Erbyn hyn, mae cyfeiriad e-bost penodedig i athrawon cyflenwi i alluogi aelodau i gysylltu â'r Undeb a rhoi esiamplau o'u profiadau: [supply@mail.nasuwt.org.uk](mailto:supply@mail.nasuwt.org.uk).



03330 145550

E-bost: [advice@mail.nasuwt.org.uk](mailto:advice@mail.nasuwt.org.uk)

Gwefan: [www.nasuwt.org.uk](http://www.nasuwt.org.uk)

**Mehefin 2018**